Telynorion Camac

Gaeaf 2006

Telynau Vining Cyf
8-10 Arcêd Heol Fawr, Caerdydd CF10 1BB
Ffôn: (029) 2022 1199
Ffacs: (029) 2022 6935
E-bost: telynauviningharps@boltblue.com

Telynau am y Nadolig!
Yn ogystal â'n detholiad eang o delynau newydd, ar hyn o bryd mae gennym nifer o rai ail-law a chyn-fodelau arddangos/rhentu ar werth am bris gostyngedig. Mae rhai o'r telynau sydd ar gael yn cynnwys:

Telyn lifer ***Hermine*** 34-tant carbon, gorffeniad mahogani, £1,100 yn cynnwys TAW (pris cyfredol £1,325). Cyn-delyn rhentu mewn cyflwr perffaith.
Telyn lifer ***Melusine*** 38-tant neilon, gorffeniad mahogani, £1,295 yn cynnwys TAW (pris cyfredol £1,495). Cyn-delyn rhentu mewn cyflwr perffaith.
Telyn bedal ***Clio*** 44-tant â seinfwrdd estynedig, gorffeniad mahogani gyda seinfwrdd addurniedig, £8,195 yn cynnwys TAW (pris cyfredol £8,695). Cyflwr gwych, cyn-fodel arddangos, chwe mis oed. Gwarant 5-mlynedd lawn.
Telyn bedal ***Athena*** 47-tant â seinfwrdd syth, gorffeniad mahogani, £7,750 (pris cyfredol £8,695). Cyflwr gwych. Tair blwydd oed.

Cambria
Cyhoeddasom yn ein cylchlythyr diwethaf fod Camac yn dylunio telyn lifer newydd sbon yn arbennig ar gyfer marchnad y DU. Rydym yn awr yn falch i allu cyhoeddi y bydd y delyn hon yn ein siop ym mis Ionawr, a'i henw yw'r ***Cambria***. Telyn werin 34-tant coludd yw hon, sy'n pwyso 12kg ac sy'n 131cm o uchder. Bydd y delyn ar gael gyda gorffeniad mahogani, pren ceirios neu bren collen Ffrengig. Archebwch yn awr er mwyn bod yn un o berchenogion cyntaf y delyn newydd hon! Bydd model stoc ar gael i'w weld yn y siop cyn Nadolig.

Y delyn werin Cambria newydd, gyda 34 tant coludd, sy'n gyfyngedig i Telynau Vining

Mai Fukui
Rhoddodd Mai Fukui, sy'n bedair ar bymtheg oed, ddatganiad telyn syfrdanol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar y 19 Hydref. Roedd y cyngerdd – a noddwyd gan Telynau Vining a Telynau Camac – yn rhan o Daith Ddatganiadau Ewropeaidd Mai yn sgîl ei gwobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Telyn Ryngwladol y Cité des Arts ym Mharis yn 2005.

Perfformiodd Mai raglen amrywiol ac anarferol, mewn rhannau, o gerddoriaeth telyn o'r 18fed, y 19eg a'r 20fed ganrif. Doedd rhai o'r darnau erioed wedi cael eu clywed o'r blaen, hyd yn oed gan rai o'r telynorion dawnus yn y gynulleidfa. Yr uchafbwynt i ni oedd perfformiad virtuoso o *Ballade Fantastique* gan Henriette Renié, cyfansoddiad rhyfeddol wedi ei seilio ar stori lofruddiaeth gan Edgar Allan Poe.

Ychwanegwyd at ein gwerthfawrogiad o'r datganiad gan nodiadau rhaglen Ann Griffiths – mor fanwl eu hymchwil, mor wybodus ac mor diddorol ag erioed.

Mae Mai Fukui yn enw i'w gofio a gwylio amdano yn y dyfodol wrth i'r cerddor ifanc dawnus, arobryn yma gychwyn ar yrfa sy'n addo mynd â hi i'r brig.

Mai a Elen

Arddangosfeydd telynau yn 2007
Da chi, gwnewch nodyn yn eich dyddiadur o'r digwyddiadau canlynol lle byddwn yn arddangos yn 2007:

Gŵyl Telynau Caeredin: 30 Mawrth - 4 Ebrill
Symposium Telynau Ewrop, Caerdydd: 22 - 27 Gorffennaf.

Telynorion Camac

Fe fydd digwyddiadau eraill hefyd, nad yw'r manylion terfynol amdanynt ar gael wrth i ni fynd i'r wasg. Os hoffai unrhyw gymdeithasau telyn neu athrawon telyn i ni ymweld â'u hardal, da chi, cysylltwch â ni i drafod hyn.

Rhywbeth i'r hosan
Edrychwch ar yr anrhegion Nadolig a rhoddion hosan fforddiadwy yma:

Cyweiriwr cromatig electronig Seiko SAT500 am £29.99
Mae'r trosydd cyweirio CM1 dewisol ar gael gennym hefyd, am £8.00.
Cyweiriwr clip cromatig electronig Seiko STX1 am £44.99.
Gallwch glipio'r cyweiriwr gwych yma'n rhwydd wrth gâs-sain y delyn neu stand gerddoriaeth.
Metronom digidol Wittner MT41 am £29.95.
Troli telyn werin ysgafn, sy'n plygu'n ddestlus, am £120.00.
Stolion pren hawdd eu cymhwyso ar gyfer telyn werin (£75.00), telyn bedal (£95.00), a standiau cerddoriaeth pren (£165.00). Mae'r rhain ar gael mewn pren mahogani, ceirios, collen, masarn du a naturiol.
Cracyrs cerddorol: holl hwyl yr ŵyl gyda'r cracyrs cerddorol hyn. Mae pob cracyr yn cynnwys chwiban traw gwahanol.
Enwebwch arweinydd i ddilyn y sgôr a defnyddio'r baton, a gall pawb ymuno gyda'i gilydd i chwarae carolau Nadolig. Oriau o hwyl am £12.95.
Detholiad mawr o CDiau telyn, yn cynnwys y canlynol a gyhoeddwyd yn 2006:
Gwenan Gibbard: *Y Gwenith Gwynnaf.*
Delyth Jenkins: *Aros.*
Catrin Finch: *CF47 (Catrin a'i Band Mawr).*
Double Action: *Reaction (Deuawd telyn Keziah Thomas ac Eleanor Turner).*
Blychau gemau porslen deniadol wedi eu peintio â llaw gyda dyluniad telyn. Cynnig arbennig, gostyngiad, o £20 to £15.
Amrywiaeth eang o eitemau cerddorol gwreiddiol yn cynnwys cadwyni gwddf, clustdlysau, tlysau, waledi, mygiau, clociau, pinnau, pensiliau, padiau a rwberi

Cerddoriaeth newydd
Os carech gael copi o'n catalog cyfredol, da chi, cysylltwch â ni dros y ffôn, drwy ffacs neu ebost a bydd yn bleser gennym anfon copi atoch drwy'r post. Mae pob eitem ar gael drwy'r post, gyda'r troad fel arfer. Dyma rai o'r llyfrau newydd sydd gennym mewn stoc eleni:

Tair cyfrol newydd gyffrous o ysgrifbin Meinir Heulyn: *Serenades Cyfrol 2* – casgliad arall o ddeuawdau ffliwt a thelyn yn amrywio o Beethoven i Bizet; *Telyn Tudful* – casgliad o alawon gwerin a hwiangerddi gydag ymarferion ar gyfer dechreuwyr; *Cam Ymlaen/Moving On* – casgliad o ganeuon gwerin.

Popular folk songs for the harp – Alison Martin. Alawon traddodiadol wedi eu trefnu ar gyfer y delyn bedal neu'r delyn lifer.

Mae gennym gasgliad mawr o weithiau gan Savourna Stevenson yn cynnwys *Tickled Pink, In a French Style, Lament for a Blind Harper* a *Blue Orchid*.

Cerddoriaeth gan Monika Stadler yn cynnwys *On the Water, Another World, Scandinavia* and *The Birch Tree.*

Gwefan
Yn dod yn fuan iawn yn y Flwyddyn Newydd... ein dwy wefan newydd:

dylai ***www.camacharps.co.uk*** fod ar-lein ym mis Ionawr i ateb eich holl anghenion telyn a bydd ***www.rowlandsonline.co.uk*** ar gael i chi allu prynu copïau o gerddoriaeth ddalen ar gyfer pob offeryn ar-lein.

Archebu drwy'r post
Carem atgoffa'n cwsmeriaid ein bod yn cynnig gwasanaeth archebu drwy'r post gyda'r troad ar gyfer ein holl gerddoriaeth, tannau, ac offer telyn. Gallwch archebu'r rhain drwy ein ffonio ar (029) 2022 1199 neu drwy anfon ebost atom, telynauviningharps@boltblue.com.

Mae'n siop yng nghanol Caerdydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, 10am - 5.30pm.
Diolch am eich cefnogaeth a'ch cwsmeriaeth yn ystod 2006. Rydym wedi mwynhau bod at eich gwasanaeth, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n traddodiad o gynnig gwasanaeth cyfeillgar, cymwynasgar a gwybodus.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr.